# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod yn Canolfan Rhosybol
## Nos Lun 5 Rhagfyr 2022 am 7yh.

1. Cyfarfod yn Canolfan Rhosybol

2. Presennol
Gwynfor Owen, Huw Jones, Gwilym Morris, Debra Griffiths, Rhian Hayes, Carol Jones

GM yn rhoi croeso i aelodau Newydd CCR

3. Ymddiheuriadau
Wendy Morris Griffiths

4. Datgan Diddordeb
GO – eitem 6 v) Cais capel parc

5. Darllen a cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 7 Tachwedd 2022
Go yn derbyn, DG yn eilio

6. **Materion yn codi**

i) Aelodau newydd Cyngor Cymuned Rhosybol
Arwyddo datganiadau derbyn swydd
RH a CJ wedi arwyddo datganiadau

Adolygiad Dewis Swyddogion 22/23

i) Cadeirydd
(Hefyd yn sefyll am Trysglwyn)
GM yn ymddiswyddo fel cadeirydd
CJ yn cynnig, GO yn eilio cynnig Aled Morris Jones fel cadeirydd

ii) Is Gadeirydd
(Hefyd yn sefyll am Trysglwyn)
Rhian Hayes

iii) Swyddogion ar bwyllgorau allanol

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyllid Cyfrifol | Clerc – ME |
| Adrodd i'r wasg / Gwefan | Clerc – ME |
| Pwyllgor Neuadd Rhosybol | WMG – angen gwirio hyn |
| Llywodraethwyr yr Ysgol | WMG |
| Ceisiadau Cynllunio | Pob aelod |
| Fforwm Cynllunio ynys Môn | |

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru | |
| Cynllun Datblygu Lleol | |
| Gogledd Môn / Partneriaeth | AMJ / GM |

ii) Cloc y Pentref
Adio I'r cyfarfod nesaf, angen checio manylion:
Newid Oriau
Weindio'r cloc
Faint o bres am y swydd

iii) CSYM – Pencampwyr iaith Gymraeg
Ydi'r pencampwyr iaith yn eich ardal am ei chyflawni unwaith eto, neu unigolyn newydd? Rydym yn awyddus iawn i glywed gan bob un o'r Cynghorau Tref a chymunedau a derbyn isafswm un enwebiad gennych.

Un Llais Cymru
Fforwm Iaith Môn – cyfarfodydd bob mis ar ddydd gwener ar lein

iv) Cyfraniadau Blynyddol
Yn flaenorol £100 wedi cael ei ddosbarthu i'r canlynol:
Ysgol Rhosybol
Ysgol Feithri Rhosybol
Urdd Rhosybol
Clwb Hamdden Rhosybol
CFFI Rhosybol
Capel Parc
Capel Pengarnedd
Capel Gorslwyd
Eglwys Llandyfrydog
Yr Arwydd
CJ yn cynnig, RH yn eilio cyfraniadau o £100

v) Ceisiadau Ariannol

a. Capel Parc
Llythyr wedi ei ddebryn am gymorth gyda cyllido torri dwy goeden sydd a pherygl i ddisgyn ar ben y tai gyferbyn – Amcan bris o £1,600 am torri y ddwy goeden
GO yn datgan diddordeb fel aelod o'r capel
Angen mwy o wybodaeth gyda amcan bris ychwanegol o syn bosib

b. Dawns i Bawb - Dim
c. Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Môn - Dim

**8. Gwybodaeth**

a) CSYM – Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn Gwahardd Traffic trwodd dros dro
Lôn Tai Hen, Rhosgoch
12 Rhagfyr 2022, disgwylir I'r lon wedi cau am 2 ddiwrnod

b) Ambiwlans Awyr Cymru
Llythyr gan gwirfoddolwr AAC am ddyfodol safle Dinas Dinlle

c) Llywodraeth y DU - Coffáu Coronafeirws
Casglu barn am y modd y ddylem goffau pandemig y coronafeirws, a nodi'r cyfnod eithriadol hwn yn ein hanes ar lefel genedlaethol a chymunedol

d) CSYM – Cronfa Ynys Môn Oed-Gyfeillgar 22/23
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau trydydd sector / gwirfoddol (nid-er-elw) am hyd at **£1,000** i Gronfa Ynys Môn Oed-Gyfeillgar 2022/23.

Bwriad y gronfa yw cefnogi'r datblygiad o brosiect a fydd yn gwneud Ynys Môn, neu gymuned neu ardal benodol o fewn y sir, yn fwy Oed-Gyfeillgar.

Mae'r gronfa yn agor ar y 18fed o Dachwedd a'n cau ar y **9fed o Ragfyr am 5pm**. Bydd gofyn i'r prosiect cael ei gynnal unrhyw bryd rhwng y 17eg o Ragfyr 2022 a'r 31ain o Fawrth 2023.

e) Comisiwn Cymunedau Cymraeg - Dyfodol cymunedau Cymraeg: Galwad am dystiolaeth gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg
Ymghynghoriad hyd at 13 Ionawr 2023

**9. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

FPL/2022/295
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu, creu mynedfa newydd i geir ynghyd a estyniad i'r cwrtil yn Gwylfa, Penysarn
https://ioacc.force.com/s/papplication/a1G4H00000PxeSZUAZ/fpl2022295?language=cy

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

HHP/2022/266
Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o'r adeilad, addasu ac ehangu gan gynnwys adeiladu balconi yn Penllain, Llandyfrydog
Caniatad gyda amodau

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

GM – angen holi am gostau llogi Neuadd Rhosybol

10. **Unrhyw Fater Arall**

- ME ddim yn medru parhau fel clerc (wedi rhoi hysbyseb ymddiswyddo ers Mai 2021), er fod dim ymateb wedi bod I hysbyseb y swydd

CJ – oes paddles defibrillator I blant yn Rhosybol?
Oes angen defibrillator I ochr llanerchymedd Rhosybol?
Oes Hyfforddiant ar gael?
Holi Richard beth sydd ar gael

**Trysglwyn**
Anfoneb Gwaith ar glirio Capel Mwd, Pencraigwen gan AE&ET Lewis £720.00 (£600 + £120.00 taw )